Uwch Reolwr Codi Arian

Cyflogir gan:	Bydd y deiliad swydd yn cael ei gyflogi'n uniongyrchol gan Ganolfan Materion Rhyngwladol Cymru
Yn gyfrifol i:	Prif Weithredwr WCIA
Cyflog:	£42,237 y flwyddyn, pro rata Byddwch yn cael eich cofrestru'n awtomatig yn ein cynllun pensiwn, a bydd WCIA yn talu cyfraniadau pensiwn hyd at uchafswm o 5% o'ch cyflog crynswth (o leiaf 4%)
Telerau cyflogaeth:	Mae hon yn swydd rhan-amser, tymor penodol am 12 mis, yn dechrau cyn gynted â phosibl. Bydd cyfnod prawf o 3 mis. Rhaid i bob ymgeisydd gael yr hawl i weithio yn y DG.
Lleoliad:	Gweithio o bell / swyddfa wedi'i lleoli yn y Deml Heddwch yng nghanol Caerdydd / gweithio hybrid
Oriau:	18.5-20 awr yr wythnos. Rydym yn gweithredu polisi gweithio hyblyg
Gwyliau blynyddol:	37 diwrnod y flwyddyn (mae hyn yn cynnwys gwyliau cyhoeddus) pro rata
Teithio:	Weithiau, bydd angen teithio ar draws y DU ar gyfer y rôl hon, gan gynnwys aros dros nos. Mae defnyddio trafnidiaeth gyhoeddus yn cael ei ffafrio; pan nad yw hyn yn gyfleus, gall staff ddefnyddio eu cerbyd eu hunain. Y gyfradd milltiroedd gyfredol yw 45c.

Mae Canolfan Materion Rhyngwladol Cymru yn gwerthfawrogi amrywiaeth, yn hyrwyddo cydraddoldeb ac yn herio gwahaniaethu. Rydym yn croesawu ac yn annog ceisiadau gan bobl o bob cefndir.

Ynghylch WCIA

Mae Canolfan Materion Rhyngwladol Cymru yn elusen gofrestredig sy'n ysbrydoli pobl yng Nghymru i ddysgu a gweithredu ar faterion byd-eang. Ein gweledigaeth yw i bawb yng Nghymru gyfrannu at greu byd tecach, mwy heddychlon.

Ein nodau cyffredinol yw:

1. Dysgu Byd-eang - paratoi Cymru ar gyfer ein dyfodol cyffredin. Rydym yn ysbrydoli diddordeb pobl mewn materion byd-eang ac yn datblygu eu dealltwriaeth o pam mae'r materion hyn yn berthnasol i'n bywydau ni i gyd.

2. Gweithredu Byd-eang - ysbrydoli cymunedau a sefydliadau. Rydym yn cefnogi cymunedau a sefydliadau i uno y tu ôl i weithredu byd-eang yng Nghymru

3. Partneriaethau Byd-eang - cysylltu Cymru a'r byd. Rydym yn cefnogi partneriaethau byd-eang sy'n cryfhau Cymru fel cenedl sy'n edrych tuag allan ac sy'n gyfrifol yn fyd-eang.

Rydym wedi ein lleoli yn y Deml Heddwch ac Iechyd yng Nghaerdydd, ac rydym yn gweithio gyda phobl o bob oedran ar draws Cymru, ac yn darparu fforwm annibynnol, amhleidiol ar gyfer hawliau dynol, heddwch a chyfiawnder, cynaliadwyedd a datblygiad rhyngwladol

Crynodeb o'r rôl Uwch Reolwr Codi Arian:

Mae hwn yn gyfle unigryw i chwarae rhan allweddol yn natblygiad WCIA yn y dyfodol wrth i ni symud ymlaen i weithio ar strategaeth newydd, ochr yn ochr â'r tîm a rhanddeiliaid yng Nghymru ac ar draws y byd.
Rôl yr Uwch Reolwr Codi Arian fydd:

- Gweithio ar draws y sefydliad i ddeall anghenion cyllido
- Cyrraedd targedau uchelgeisiol ar draws ffrydiau codi arian amrywiol drwy wneud ceisiadau, sicrhau ffrydiau ariannu newydd, a datblygu cysylltiadau newydd
- Meddu ar, ac deiladu gwybodaeth am gyllidwyr: creu cronfa ddata o gyllidwyr, rhwydweithio cyson, meithrin perthynas â chyllidwyr a bod yn ymwybodol o'r dirwedd ariannu (bod yn ymwybodol o bryderon cyllidwyr, cyfateb arian i brosiectau, mynychu digwyddiadau)
- Cynnal ymchwil i gyllid amrywiol gyda ffocws ar ymddiriedolaethau, sefydliadau a phartneriaethau corfforaethol moesegol – yn Nghymru, y DU ac ar draws y byd
- Creu cyllideb model fel sail ar gyfer ceisiadau am gyllid, y byddwn wedyn yn ei addasu i bob cais penodol
- Datblygu a rheoli strategaeth a model ariannu cynaliadwy: ehangu cyfleoedd ariannu moesegol

Manyleb person

Hanfodol

- ✓ Gweledigaeth strategol, gweithio ar draws sefydliad i ddeall a dehongli blaenoriaethau amrywiol mewn perthynas â chyfleoedd ariannu

- ✓ Profiad amlwg o ddatblygu modelau ariannu cynaliadwy ar gyfer sefydliadau elusennau
- ✓ Hanes profedig o ddatblygu a chynhyrchu cyfleoedd ariannu ar draws ceisiadau a rhaglenni mawr ac aml-haenog.
- ✓ Yn gallu cyfathrebu'n wych gyda chyllidwyr a'r cyhoedd i egluro gwaith WCIA a'i bartneriaid lletyol
- ✓ Sgiliau profi beirniadol ac ysgrifennu copi ar gyfer ceisiadau cyllido / cyfathrebu effaith
- ✓ Profiad o weithio yn elusennau a dealltwriaeth o'r dirwedd ariannu heriol

- ✓ Yn gweithio orau gyda thîm deinamig ac amrywiol
- ✓ Yn cael ei ysgogi gan yr awydd am fyd cyfiawn a mwy heddychlon, yn frwdfrydig ynghylch cyfiawnder hinsawdd ac heddwch addysg, ac â diddordeb mewn materion byd-eang
- ✓ Ymrwymiad i genhadaeth, gweledigaeth a gwerthoedd WCIA
- ✓ Ymrwymiad i gynhwysiant a thriniaeth deg
- ✓ Yn meddu ar ymdeimlad cryf o foeseg a gonestrwydd
- ✓ Mabwysiadu dull dysgu at waith
- ✓ Trin pobl yn deg a chydag urddas a pharch
- ✓ Gallu annog pobl o bob cefndir i gymryd rhan yn ein gwaith

Dymunol

- ✓ Y gallu i gyfathrebu yn Gymraeg a Saesneg

Proses ymgeisio

Mae'n rhaid i bob ymgeisydd lenwi ffurflen Cais am swydd swyddogol WCIA, sydd ar gael yn www.wcia.org.uk/vacancies. Dylech ddarparu'r holl wybodaeth berthnasol ar y ffurflen gais. Dim ond ffurflen gais y byddwn yn ei derbyn - ni fyddwn yn derbyn CVs neu lythyron eglurhaol fel rhan o'r cais. Dylai'r holl ymgeiswyr lenwi'r ffurflen Cyfleoedd Cyfartal. Mae'r rhain yn cael eu gwahanu oddi wrth eich ffurflen gais ar ôl eu derbyn, ac nid ydynt yn cael eu rhannu gyda'r panel sy'n llunio'r rhestr fer neu'r panel cyfweld. Dylech anfon eich cais drwy e-bost i centre@wcia.org.uk. Os nad oes gennych fynediad i e-bost, gallwch anfon cais papur i'r cyfeiriad sydd ar y ffurflen gais. Cysylltwch â ni os oes gennych unrhyw ofynion mynediad eraill er mwyn cyflwyno cais. Y dyddiad cau ar gyfer derbyn ceisiadau am **23.59 yw 21 Ebrill.**

Byddwn yn anfon cydnabyddiaeth drwy e-bost at bob ymgeisydd. Os nad ydych yn derbyn cydnabyddiaeth cyn y dyddiad cau, cysylltwch â ni. Nid ydym yn gyfrifol am geisiadau sydd ddim yn ein cyrraedd, neu sy'n cyrraedd ar ôl y dyddiad cau. Os ydych yn cael eich rhoi ar y rhestr fer ar gyfer cyfweliad, byddwn yn cysylltu â chi'n uniongyrchol. Bydd cyfweliadau'n cael eu cynnal ar Zoom neu yn y Deml Heddwch. Bydd y broses gyfweld yn cynnwys cyfweliad panel, cyflwyniad a thasg fer. Ni fyddwn yn gofyn am unrhyw eirdaon nes bod cynnig amodol o gyflogaeth wedi cael ei wneud. Bydd ymgeiswyr aflwyddiannus yn cael eu hysbysu drwy e-bost.